

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Doreen Evans (Tanyfron) a Heulwen Roberts (Henllan) – y ddwy yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Gweddiwn y bydd y dyddiau a'r wythnosau nesaf yn rhai lle byddant yn cryfhau ac yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd. Cofiw'n hefyd am eu teuluoedd, gan ddiolch am eu gofal a'u hymroddiad.
- Mae Rhys Howatson (Hiraethog) hefyd yn disgwyl mynd i'r ysbyty i gael llawdriniaeth y penwythnos hwn. Gweddiwn y bydd y cwbl yn mynd yn ddi-helynt iddo ac y caiff yntau adferiad iechyd buan iawn.
- Cofiw'n hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddiwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Gwaith Llafar yr Ysgol Sul

Er mwyn inni ail-gydio yn yr arferiad o ddysgu darnau o'r Ysgrythur ar ein cof, rydym eleni wedi penderfynu ymestyn y dasg a gosod gwaith dysgu ar gyfer pob oedran! Y bwriad felly, yn ogystal ag adrodd y gwaith yn yr eglwys yn lleol yn ystod un o'r tri Sul cyntaf ym mis Mehefin, yw y bydd **pob oed** (ar wahân i'r oedran uwchradd) yn cyflwyno'r gwaith llafar yn ystod **"i-Grist"** sef y gwasanaeth ar fore Sul y Fro a gynhelir eleni ar Fehefin 24ain yn Llansannan. Bydd yr oedran uwchradd yn ei gyflwyno yn yr **"Oedfa o Fawl"** a gynhelir yn oedfa'r hwyr ar y Sul hwnnw.

Y gwaith dysgu a osodwyd ar ein cyfer eleni yw:

Blwyddyn 2 ac iau: "Dewch blant bychain, dewch i foli'r Iesu" (Eryn 406 Caneuon Ffydd – pennill 1 a 2) – *canu neu adrodd*

Blwyddyn 3 a 4: Marc 10:14 "Gadewch i'r plant bach... teyrnasiad Duw." (Efengyl Marc, beibl.net)

Blwyddyn 5 a 6: Marc 10:13-15 (Efengyl Marc, beibl.net)

Oed uwchradd: Marc 10:32-34 (Efengyl Marc, beibl.net)

Oedolion: Marc 16:3-7 (Efengyl Marc, beibl.net)

Mae gan bob eglwys gopïau o'r llyfrynau Efengyl Marc (beibl.net).

Mae croeso hefyd i bwy bynnag sy'n dymuno i baratoi cyflwyniad creadigol syml i gyd-fynd efo'r gwaith llafar. Gofynnir yn garedig i bob arolygwr Ysgol Sul drefnu bod pob cyflwyniad (gydag enw a'r oed ar ei gefn) yn cyrraedd Llansannan erbyn dydd Mercher, Mehefin 20fed er mwyn inni gael paratoi cyflwyniad PowerPoint ohonynt i'w dangos ar y wal yn ystod yr oedfa **"i-Grist"**.

Bydd pob Ysgol Sul yn cyflwyno tystysgrif i'r plant oed cynradd ac iau yn dilyn gwrandao arnynt yn adrodd/canu yn yr eglwys leol. I gael y tystysgrifau ac os ydych am nodi yn Llais Bro Aled y Sul y byddwch yn cyflwyno'r gwaith yn lleol, cysylltwch â Mair (870632). Hwyl ar y dysgu!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Mai 2012

Cofiwch am y Gwasanaeth yn Llanefydd nos Wener am 6:00 pryd y gwobrwyir plant, ieuencid ac oedolion yr Ysgolion Sul am eu gwaith cwrs.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da i bob un ohonoch a chroeso i oedfaon y dydd! I'r rhai sydd yn methu dod i oedfa, croeso i chithau i ymuno hefo ni mewn gweddi ac wrth ddarllen o'r Beibl. Mae'r Eglwys yn un wrth orsedd Duw ac y mae'r Arglwydd yn gallu dod yn agos at bawb. Addolwn ein Duw hefo'n gilydd heddiw a diolchwn Iddo am roi ei Fab, Iesu, i ni yn Waredwr ac am ei Ysbryd sydd yn ein harwain i'w adnabod yn ddyfnach o hyd.

Gawsoch chi frecwast? Beth oedd ar y 'menu' tybed! Dwi'n tueddu i gael yr un peth bob bore, dwn i ddim amdanoch chi. Uwd! Wedi ei wneud (gan Ann!) hefo llefrith, dim halen, ychydig ar yr ochr galed ac yna llwyriad o fêl Cymreig. Mae Elin wrth ei bodd yn cael uwd hefyd ers rhai misoedd ond mae ychydig yn ifanc i gael mêl. Rhywbeth i edrych ymlaen ato fo!

Dwi 'di bod yn meddwl am y pethau sydd yn ein cynnal ni o ddydd i ddydd. Mae uwd yn rhagorol i frecwast am ei fod yn gollwng yr egni sydd ynddo yn ara deg drwy'r bore – yn wahanol iawn i ambell i 'cereal' arall neu hyd yn oed frecwast llawn. Er, mae hwnnw'n flasus iawn yn ei dro hefyd – os dwi'n cofio'n iawn! Gallaf glywed y ffrio rwan a chlywed arogl y bacwn!

Mae Duw wedi rhoi digon i'n cynnal ni. Rhoddodd gymaint o amrywiaeth o fwyd a maeth yn y greadigaeth ond y mae wedi addo mwyr na hynny i ni. Dwn i ddim os gawsoch chi'r profiad ryw dro o gael eich cynnal gan adnod? Weithiau, wrth ddarllen y Beibl fe fydd un adnod neu frawddeg yn dod yn fyw i ni – run fath â tase ni wedi ei fwyta – wedi ei gymryd i mewn i'n calon, fel petai. Mae'r gwirionedd sydd yn yr adnod fel petai o'n gollwng ei nerth ynom wedyn, weithiau am ddyddiau, weithiau am flynyddoedd. Rhyw fath o egni araf-ollwng fel sydd mewn uwd! Gair Duw, addewidion, cysuron a rhybuddion ei air yn ein cynnal o ddydd i ddydd.

Gweddiwn heddiw felly, lle bynnag a sut bynnag y byddwn yn clywed y gair y cawn ymborthi arno, ei fwyta, i'r gwirionedd ein cynnal trwy nerth tragwyddol, di-hysbydd yr Ysbryd Glân. Y mae'r Arglwydd yn abl i'n cynnal am byth ac ym mhob profiad o'n heiddo. Cofiw'n Salm 23 – 'Ti a arlwyi fwrdd ger fy mron' – bwrdd sydd yn llawn o gynhaliath ei ras a'i gariad.

Aneurin

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Adnabod Dawn** yn Festri Capel y Groes am 7.30. Cyfres o 5 sesiwn rhwng rwan a'r haf (ar nos Fawrth fel arfer) i feithrin arweinwyr lleol. Y sesiynau dilynol ar Mai 30ain (Mercher), Mehefin 19eg, Gorffennaf 3ydd a'r 17eg. Cysylltwch ag Aneurin neu Rhodri os oes gennych ddiddordeb.
- Mercher
lau • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
• **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• Yr ail sesiwn o'r drafodaeth ar y thema "**Ymestyn Allan**" yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 gyda'r Parchg Athro Euros Wyn Jones yn agor y drafodaeth. Croeso cynnes i bawb.
- Gwener • Cyfarfod o **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Llanefydd am 4.30.
• **Gwasanaeth gwobrwyo cyweithiau'r plant ac ieuenctid yr Ysgolion Sul** yng Nghapel Llanefydd am 6.00 gyda sgwrs fer gan Rhodri Glyn. Bydd gemau/chwareon i ddilyn yng ngofal criw Coleg y Bala a bydd lluniaeth ysgafn ar gael.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Ioan Davies yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deulu am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol yn yr Eglwys am 11.00 a bydd cyfeiriad at y gwaith hefyd yn Oedfa'r Fro yng Nghapel Coffa Henry Rees am 6.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Watkin yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00, gyda phlant Henllan a Groes yn cyfarfod yn Groes. Yn Henllan, bydd yr Ysgol Sul am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn y Capel am 2.00 gyda'r Parch Tom Williams yn gwasanaethu a phaned i ddilyn.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

I ddod

- **Darlith ar William Salesbury - ei gyfnod a'i gyfraniad** yn Festri Llansannan, nos Iau Dyrchafael, sef Mai 17eg am 7.30 gyda Dr Iwan Rhys Edgar, Pwllheli yn darlithio. Croeso cynnes i bawb.
- **Sasiwn y Plant** yng Nghapel Saron, dydd Sul Mai 20fed am 2.00 gyda Huw a Haf Evans, Tan y Graig, Cefn Meiriadog yng ngofal y gwasanaeth.
- **Tyfu Arweinwyr** (sesiynau ar rannu'n ffydd) nos Fawrth, Mai 22ain yng Nghapel Penybryn, Wrecsam. Mwy o fanylion gan Rhodri.
- **Y Gairathon** (o'r Bala i Lanfihangel y Pennant) dydd Sadwrn, Mehefin 9fed. Cysylltwch ag Elen Elias (01492 543320/07760 452145) os oes gennych ddiddordeb i redeg rhywfaint o'r daith. Manylion yr oedfa a'r trefniadau eraill i ddilyn.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau